

DRAFFT O'R LLAWLYFR ARHOLIADAU

1.0 CYFLWYNIAD

1. Diben y ddogfen hon yw esbonio prif nodweddion trefn asesu'r Brifysgol. Dylid ei darllen ar y cyd â'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd, Adran 4: *Confensiynau Arholiadau, y Rheoliadau ar gyfer Graddau Cychwynnol Modiwlwr, y Rheoliadau ar gyfer Dyfarniadau Uwchraddedigion a Addysgir a'r Rheoliadau ar gyfer Graddau Sylfaen*. **Os cyfyd unrhyw anghydfod ynglŷn â'r wybodaeth yn y ddogfen hon, dylid rhoi'r flaenoriaeth i'r wybodaeth a nodir yn y *Confensiynau Arholi a'r Rheoliadau ar gyfer Graddau Cychwynnol Modiwlwr a'r Graddau Sylfaen a'r Rheoliadau ar gyfer Dyfarniadau Uwchraddedigion a Addysgir*.**
2. Po fwyaf y mae myfyrwyr yn ei ddeall am y drefn asesu, y mwyaf o gyfleoedd fydd ganddynt i fanteisio ar eu hastudiaethau ac i berfformio hyd eithaf eu gallu. Mae yna sawl dull asesu, gan gynnwys gwaith cwrs ac arholiadau. Ni fydd anwybodaeth am y gofynion asesu yn esgus derbyniol os ydych yn cyflwyno gwaith ansafonol neu anghyflawn. Dylai myfyrwyr sicrhau eu bod yn ymgyswddo â'r wybodaeth hon ac, mewn amheuaeth, **mynnwch gyngor gan eich adran(nau) academaidd**. Rhestrir ffynonellau gwybodaeth ychwanegol yn yr Atodiad.
3. Mae'n rhaid i adrannau gael meini prawf asesu ar waith sy'n:
 - adlewyrchu nodau ac amcanion cynlluniau astudio unigol a chanlyniadau dysgu modiwlau;
 - egluro'r safonau sydd eu hangen i gael graddau penodol ym mhob darn o waith sy'n cael ei asesu neu ei arholi.

Bydd meini prawf asesu yn amrywio yn ôl yr wybodaeth a'r sgiliau sy'n cael eu hasesu a ffurf yr asesiad ei hun.

1.1 ARHOLIADAU

1. Mae arholiadau ffurfiol yn rhan bwysig o asesiad gwaith myfyrwyr. Gall Adrannau Academaidd a'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr ddarparu cyngor ar dechnegau arholiadau os oes gan fyfyrwyr bryderon ynglŷn â'u perfformiad mewn arholiadau, a gall pob myfyriwr ofyn am adborth ar eu perfformiad mewn arholiadau.

1.2 CYFNODAU'R ARHOLIADAU

1. Cynhelir arholiadau fel a ganlyn:
 - Semester 1 (Ionawr)
 - Semester 2 (Mai/Mehefin)
 - Arholiadau Ailsefyll (Awst)

- Cyflwyno Traethodau Estynedig Meistr (Medi)

D.S. Mae'r cyfnod ailsefyll yn cynnwys pob asesiad gwaith cwrs ac arholiad.

1.3 AMSERLENNI'R ARHOLIADAU

1. Fel rheol mae Amserlen Dros Dro ac Amserlen Derfynol yr Arholiadau ar gael ar y we neu drwy eich Adran Academaidd cyn arholiadau Semester 1 a Semester 2. Dylai myfyrwyr graffu ar yr Amserlenni Dros Dro rhag ofn bod pynciau'n gwrthdaro. Os ydynt, dylid rhoi gwybod i'r Swyddog Amserlenni ar attstaff@aber.ac.uk ar unwaith. Gall methu â gwneud hyn achosi problemau mawr gan y bydd angen gwneud trefniadau arbennig, gan ychwanegu at y pwysau ar adeg lle mae myfyrwyr dan bwysau eisoes.

Dylai myfyrwyr graffu ar yr Amserlen Derfynol bob tro i weld a ad-drefnwyd unrhyw arholiadau. NID YW CAMDDARLEN YR AMSERLEN YN RHESWM DILYS DROS ABSENOLDEB NEU GYRRAEDD YN HWYR.

2. Mae Amserlenni Arholiadau Semester 1 a Semester 2 yn seiliedig ar y modiwlau y mae myfyrwyr wedi cofrestru ar eu cyfer ar ddechrau'r sesiwn, a byddant yn cynnwys unrhyw newid modiwl a gymeradwywyd. Pan mae myfyrwyr yn dymuno newid modiwl, rhaid iddynt ddefnyddio'r adnodd Newid Cofrestriad trwy eu cofnod myfyriwr ar-lein. Mae rhagor o wybodaeth am sut i wneud hyn ar gael yma <http://www.aber.ac.uk/cy/student/ug-issues/registration/>. Neu, gall myfyrwyr lenwi Ffurflen Cofrestru Newid, sydd ar gael ar y we yn <https://www.aber.ac.uk/cy/agro/students/ug-issues/registration/>, o'r adran academaidd neu'r Gofrestrfa Academaidd. Rhaid i bob newid gael ei gymeradwyo gan yr aelodau staff priodol yn yr Adrannau, a chyfrifoldeb y myfyrwyr yw cael y gymeradwyaeth sydd ei angen cyn cyflwyno unrhyw newidiadau. Mae'n rhaid rhoi gwybod am unrhyw newidiadau i fodiwlau o fewn pedair wythnos gyntaf y semester. Gall methu â chofrestru yn gywir achosi gwrthdaro rhwng pynciau ar yr amserlen, a thrafferthion pan fydd myfyrwyr yn absennol o arholiadau modiwlau nad ydynt yn eu hastudio bellach oherwydd dim ond am fodiwlau y maent wedi cofrestru ar eu cyfer yn ffurfiol y byddant yn derbyn marciau. Dylai myfyrwyr felly gadarnhau eu cofrestriad ar eu Cofnod Myfyriwr ar ôl iddynt wneud cais i newid eu cofrestriad, ac mae'n hanfodol iddynt roi gwybod i'r Gofrestrfa Academaidd am unrhyw newidiadau pellach.
3. Cyhoeddir Amserlen Arholiadau Ailsefyll mis Awst ar y we neu caiff ei rhyddhau drwy Adran Academaidd y myfyriwr ar gyfer myfyrwyr sy'n ailsefyll arholiadau ym mis Awst, boed hynny oherwydd eu bod wedi methu rhai o'i modiwlau neu oherwydd eu bod wedi colli asesiadau'r Semester oherwydd salwch neu amgylchiadau arbennig eraill (ni all myfyrwyr ailsefyll modiwl y maent eisoes wedi ei basio). Dim ond am fodiwlau y maent wedi cofrestru ar eu cyfer y bydd myfyrwyr yn derbyn marciau. Mae'n rhaid iddynt ofyn i'w hadran am gyngor os ydynt yn ansicr ynghylch gofynion ailsefyll unrhyw un o'u modiwlau, ac i gadarnhau pa asesiadau y mae'n rhaid iddynt eu hailsefyll.

1.4 MANNAU ARHOLI

1. Cyhoeddir y trefniadau eistedd i'r arholiadau, sy'n cynnwys y man arholi a rhifau sedd i bob papur, naill ai ar y We neu cânt eu rhyddhau drwy Adran Academaidd y myfyriwr ychydig cyn yr arholiadau. Dylai myfyrrwyr wneud yn siŵr eu bod yno ar yr adeg iawn, yn y lle iawn, ac yn eistedd yn y sedd gywir. Bydd methu â gwneud hynny yn creu problemau ac yn achosi iddynt golli amser yn yr arholiad.
2. Cynhelir Arholiadau Ailsefyll mis Awst fel rheol yn Aberystwyth. Gwneir eithriadau trwy drefniant arbennig, lle gellir eu cynnal mewn canolfannau tramor penodedig, ar yr amod bod y myfyrrwyr dan sylw yn cwrdd â'r costau. **Ni fydd ymrwymadau gwyliau na gwaith yn ystod yr haf yn cael eu derbyn fel cyfiawnhad dros fod yn absennol nac yn rheswm dros wneud trefniadau arbennig ar eu cyfer. Am ragor o wybodaeth, gweler:** <https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/students/ug-issues/exam-assess/overseas-exams/>.

1.5 ABSENOLDEB O ARHOLIADAU

1. Os yw myfyrrwyr yn absennol o arholiad rhaid iddynt hysbysu eu **hadran(nau)** yn ddi-oed drwy gyflwyno Ffurflen Amgylchiadau Arbennig yn nodi'r rhesymau. Gellir argraffu'r ffurflen hon o'u Cofnod Myfyriwr neu o'r we <https://www.aber.ac.uk/cy/agro/handbook/taught-schemes/name-193260-cy.html>. Rhaid cyflwyno'r ffurflen i'w hadran, ynghyd â chopïau gwreiddiol o unrhyw dystiolaeth ategol, ar yr adeg y maent yn wynebu problemau a chyn cyfarfodydd y byrddau arholi (fel rheol cynhelir y byrddau arholi tua wythnos neu bythefnos ar ôl i'r arholiadau ddod i ben, felly mae'n hanfodol bod myfyrrwyr yn trefnu i gyflwyno amgylchiadau arbennig a thystiolaeth i'w hadrannau cyn gynted â phosib – dylai myfyrrwyr ofyn i'w hadrannau i sicrhau bod y wybodaeth hon yn cael ei chyflwyno mewn pryd). O fethu â gwneud hyn, neu os nad yw'r bwrdd arholi yn derbyn esboniad y myfyriwr, cofnodir marc o 0 (sero) ar gyfer yr elfen honno i'w drosglwyddo i'r marc terfynol ar gyfer y modiwl hwnnw.
2. Cyrraedd Arholiadau yn Hwyr

Os yw myfyrrwyr yn hwyr ar gyfer arholiad dylent fynd i leoliad yr arholiad cyn gynted ag y bo modd. Bydd y staff yn y man arholi yn dweud wrthynt a allant ddal i sefyll yr arholiad (os ydynt yn cyrraedd hyd at 30 munud yn hwyr) neu a ddylent wneud rhywbeth arall.

1.6 ASESU GWAITH CWRS

1. Ceir manylion am ofynion arholi ac asesu modiwlau ar y dudalen Gwybodaeth Modiwlau ar y We (<http://www.aber.ac.uk/cy/modules/>). Darperir rhagor o wybodaeth yn y Llawlyfrau Adranol ac ar Blackboard. Dylai myfyrrwyr sicrhau eu bod yn gwybod beth sy'n rhaid iddynt ei wneud, a chadw at y dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno gwaith i'w asesu. Gallai methu â gwneud hynny, heb amgylchiadau arbennig, arwain at farc sero am y darn hwnnw o waith.
2. Mae'r Brifysgol yn cymryd dyddiadau cau ar gyfer gwaith ysgrifenedig o ddifrif. Bydd gwaith a gyflwynir ar ôl y dyddiad cau yn cael marc o sero. Ceir rhagor o fanylion yn Adran 3.3 o'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd: <https://www.aber.ac.uk/cy/agro/handbook/taught-schemes/>

3. Rhaid cyflwyno gwaith cwrs i'w asesu yn y ffurf gywir i'r adran berthnasol erbyn y dyddiad a'r amser a bennwyd. Cyflwynir y rhan fwyaf o waith cwrs bellach yn electronig, ond lle nad yw hynny'n bosibl dylai adrannau roi cyngor ynghylch y gofynion cyflwyno. Dylai myfyrwyr roi digon o amser iddynt eu hunain rhag ofn i bethau annisgwyl godi (e.e. problemau gyda chyfrifiaduron neu fân anhwylderau megis annwyd, cur pen ac ati) a allai arwain at fethu cadw at y dyddiad cau. Dylent sicrhau eu bod yn gyfarwydd â gofynion cyflwyno adrannau a modiwlau penodol, sy'n gallu amrywio o adran i adran, gan gynnwys y gofynion ar gyfer cyflwyno gwaith yn electronig. Bydd myfyrwyr yn cael derbynneb ffurfiol am y gwaith. Dylid cadw hon yn ofalus rhag ofn y bydd unrhyw anghytundeb yn ei gylch.
4. Mae llawer o fyfyrwyr yn defnyddio'u gwaith cwrs i adolygu, felly byddai'n syniad da iddynt gadw copi ohono rhag ofn ei fod yn cael ei farcio pan fyddant am adolygu. Yn Rhan Dau rhaid i'r holl waith cwrs sy'n cyfrannu at asesiad terfynol y radd fod ar gael i'r arholwyr allanol dan y trefniadau sydd ar waith ym mhob adran.

1.7 MARCIO

1. Mae'n rhaid i fyfyrwyr ysgrifennu eu cyfeirnod ym mhob arholiad ysgrifenedig. Naw neu ddeg digid sydd i'r cyfeirnod ac mae i'w weld ar eu Cerdyn Aber. Drwy wneud hyn sicrhau y gellir marcio'r arholiadau yn ddiennw. Dylai myfyrwyr sicrhau bod eu cyfeirnod wrth law yn yr arholiadau. Dim ond ar ôl i'r holl waith marcio gael ei gwblhau y bydd eu henw wedi ei gysylltu â'u sgrïptiau, er mwyn rhoi sylw i amgylchiadau arbennig (e.e. rhesymau meddygol neu dosturiol), ac i baru'r asesiadau â'r myfyriwr cywir. Rhag ofn bod pethau'n mynd o chwith (e.e. eu bod yn anghofio ysgrifennu eu rhif arholiad ar y llyfr atebion) gofynnir hefyd iddynt ysgrifennu eu henw ar y llyfr a selio'r label drosto yn unol â'r cyfarwyddiadau.
2. Oni fydd hynny yn anymarferol, bydd gwaith cwrs yn cael ei farcio'n ddiennw. Bydd pob adran yn rhoi gwybod i'r myfyrwyr am fanylion yr union drefniadau a weithredir ganddynt.
3. Er mwyn sicrhau tegwch a chysondeb mae pob arholiad a phob gwaith a asesir yn cael ei farcio'n unol â chanllawiau'r Brifysgol ar farcio a safoni. <https://www.aber.ac.uk/cy/agro/handbook/taught-schemes/name-193247-cy.html>
4. Cyfrifoldeb y myfyriwr yw sicrhau bod yr atebion a ddarperir mewn sgrïptiau arholiad yn ddealladwy ar gyfer eu marcio. Mewn achosion lle mae marciwr yn cael bod rhan sylweddol o sgrïpt arholiad yn annarllenadwy, e.e. lle byddai darllen y testun yn cymryd amser afresymol ac yn golygu nad oes cyfle i roi ystyriaeth briodol i'r cynnwys, asesir y gwaith ar sail y darnau darllenadwy yn unig, a dyfernir marc yn unol â hynny. Am ragor o wybodaeth gweler Adran 3.7 o'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd: <https://www.aber.ac.uk/cy/agro/handbook/taught-schemes/>.
5. Mae'r holl waith sy'n cyfrif tuag at yr asesiad terfynol yn cael ei arolygu gan arholwyr allanol. Eu gwaith yw gwerthuso papurau arholiad a gwaith cwrs, arolygu safonau marcio, cymryd rhan mewn arholiadau llafar (lle bo'n berthnasol), a sicrhau bod yr holl fyfyrwyr yn cael eu trin yn deg. Bydd gwaith myfyrwyr yn cael ei asesu felly gan sawl aelod o staff, o fewn y Brifysgol a'r tu allan iddi, er mwyn osgoi unrhyw oddrychedd neu ragfarn ar ran y rhai sy'n marcio. Ni ddylai myfyrwyr gysylltu â'r arholwyr allanol. Yn hytrach, dylent ofyn am eglurhad am asesiadau trwy eu hadrannau academaidd neu, os ydynt yn gymwys

i wneud hynny, trwy weithdrefnau apelio'r Brifysgol ar ôl i farc terfynol y modiwl gael ei gadarnhau.

1.8 AMGYLCHIADAU ARBENNIG

1. Os yw myfyrwyr yn credu y gallai amgylchiadau arbennig (materion meddygol, personol neu dosturiol eraill) effeithio ar rai neu'r cyfan o'u modiwlau, mae'n rhaid iddynt lenwi'r Ffurflen Amgylchiadau Arbennig <https://www.aber.ac.uk/cy/agro/handbook/taught-schemes/name-193260-cy.html> a'i hanfon ymlaen at eu hadrannau ynghyd â phob tystiolaeth ategol ar yr adeg y cawsant eu heffeithio neu cyn cyfarfodydd y byrddau arholi (sylwer y cynhelir y byrddau arholi fel rheol tua wythnos neu bythefnos ar ôl i'r arholiadau ddod i ben, felly mae'n hanfodol bod myfyrwyr yn trefnu i gyflwyno amgylchiadau arbennig a thystiolaeth cyn gynted â phosib – dylent ofyn yn eu hadran i sicrhau eu bod yn cyflwyno'r wybodaeth mewn pryd). Bydd hyn yn sicrhau y gellir ystyried amgylchiadau ar yr adeg briodol. Caiff yr wybodaeth ei thrin yn gyfrinachol a'i rhoi i'r sawl sydd ei hangen yn unig. Darllenwch eich llawlyfr adrannol yn ofalus i gael rhagor o fanylion am gyflwyno amgylchiadau arbennig.

1.9 RHEOLAU AR GYNNYDD A CHYFRIFO CANLYNIADAU GRADD

1. Mae'r rheolau i ddiffinio cynnydd rhwng blynyddoedd astudio, a'r confensiynau i gyfrif dosbarthiadau gradd ar ddiwedd cynlluniau gradd Anrhydedd ar gael yn y Confensiynau Arholi: <https://www.aber.ac.uk/cy/agro/handbook/exam-conventions/>

1.10 CANLYNIADAU

1. Caiff manylion am ddyddiadau rhyddhau canlyniadau eu hanfon at fyfyrwyr drwy e-bost ac fe'u cyhoeddir ar: <https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/students/ug-issues/>. Dosberthir yr holl ganlyniadau drwy'r 'Cofnod Myfyriwr' ar-lein, sydd ar gael ar: <https://studentrecord.aber.ac.uk/cy/login.php>. Cyfrifoldeb y myfyrwyr yw sicrhau eu bod yn cael eu canlyniadau yn syth ar ôl iddynt gael eu rhyddhau, a chymryd unrhyw gamau y gallai fod eu hangen. Mae hi hefyd yn bwysig bod myfyrwyr yn gwirio eu cyfrifon e-bost Prifysgol yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn cael gwybodaeth bwysig ynghylch eu canlyniadau neu'u hastudiaethau. Os oes gan fyfyrwyr israddedig unrhyw amheuaeth, dylent gysylltu â'r Gofrestrfa Academiaidd (ugstaff@aber.ac.uk) neu â'u hadran academiaidd, ond na roddir canlyniadau dros y ffôn. Dylai myfyrwyr uwchraddedig gysylltu â pgsstaff@aber.ac.uk.
2. Unwaith i ganlyniadau gael eu cadarnhau gan Fwrdd Arholi, cânt eu cadw ar y cofnod myfyriwr. **Ni all myfyrwyr ailsefyll modiwl y llwyddwyd ynddo eisoes er mwyn cael marc uwch.** Ceir rhagor o wybodaeth ar: <https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/regulations/>.
3. Wrth reswm, gall myfyrwyr ofyn i'w hadran am ragor o wybodaeth am eu perfformiad yn eu modiwlau a dylai staff allu cynnig cyngor, er enghraifft, ar gryfderau a gwendidau eu gwaith. Mae Egwyddorion Adborth Effeithiol i fyfyrwyr y Brifysgol wedi'u cyhoeddi yn Adran 3.3.17 o'r Llawlyfr Ansawdd Academiaidd: <https://www.aber.ac.uk/cy/agro/handbook/taught-schemes/>

1.11 AILSEFYLL

1. Dylid darllen y canllawiau canlynol yn unol â'r Confensiynau Arholiadau, sydd wedi'u cyhoeddi yn Adran 4 o'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd:
<https://www.aber.ac.uk/cy/agro/handbook/exam-conventions/>

2. Defnyddir yr arwyddion canlynol ar gyfer marciau modiwl llai na 40% (50% ar gyfer modiwlau Lefel M a marciau uwchraddedig):

R	Ailsefyll ar gyfer y marc llawn (Rhan Un yn unig)
M	Ailsefyll ar gyfer y marc llawn (Dim ffi yn Rhan Un)
F	Ailsefyll ar gyfer marc wedi'i gapio (Rhan Dau yn unig, ac eithrio Graddau Sylfaen Blwyddyn Un)
H	Ailsefyll ar gyfer y marc llawn (Dim ffi yn Rhan Dau yn unig, ac eithrio Graddau Sylfaen Blwyddyn Un)
S	Ailsefyll ar gyfer marc wedi'i gapio (Dim ffi yn Rhan Dau yn unig, ac eithrio Graddau Sylfaen Blwyddyn Un)
T	Ailsefyll ar gyfer marc wedi'i gapio (Dim ffi yn Rhan Dau – Lefel M yn unig a marciau uwchraddedig)
N	Ni chaniateir ailsefyll (ar gyfer achosion o Ymddygiad Academaidd Annerbyniol yn unig)
P	Ailsefyll ar gyfer marc wedi'i gapio (Rhan Un yn unig ar gyfer achosion o Ymddygiad Academaidd Annerbyniol)
U	Achos Ymddygiad Annerbyniol yn yr Arfaeth

3. Ni chaiff myfyrwyr ailsefyll unrhyw fodiwl yr enillwyd marc pasio ar ei gyfer eisoes.
4. I fyfyrwyr israddedig newydd sy'n dechrau o fis Medi 2018 (Rhan Un 2018/19 a Rhan Dau 2019/20), byddant yn cael eu cofrestru'n awtomatig ar gyfer yr arholiadau ailsefyll ym mis Awst. Bydd myfyrwyr sydd wedi methu hyd at 80 credyd yn ailsefyll ym mis Awst; bydd y rhai sydd wedi methu mwy nag 80 credyd yn ailadrodd y flwyddyn. Gall myfyrwyr sydd wedi methu 20 neu lai o gredydau ac nad oes angen iddynt ailsefyll er mwyn symud ymlaen wrthod y cyfle i ailsefyll drwy gwblhau Tasg Asesu Ailsefyll yr Haf ar eu Cofnod Myfyriwr.
5. Bydd myfyrwyr sy'n dechrau Gradd Meistr amser-llawn neu Ddyfarniad Uwchraddedig o fis Medi 2018 yn cofrestru am gyfnod o 12 mis. Bydd ganddynt uchafswm o 3 blynedd o ddechrau eu dyddiad cychwyn i orffen eu gradd. Gallant ailsefyll uchafswm o 60 credyd o fodiwlau trwy gwrs a fethwyd yn ystod cyfnod yr arholiadau ailsefyll ym mis Awst y flwyddyn gyntaf, ond efallai yr hoffent ohirio ailsefyll modiwlau a addysgir. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r rhain gael eu cymryd yn y flwyddyn ganlynol, naill ai yn ystod y semester a/neu'r arholiadau ailsefyll ym mis Awst. Dylent fod wedi cwblhau unrhyw asesiadau/arholiadau ailsefyll ar gyfer modiwlau a addysgir cyn cychwyn ar flwyddyn olaf eu huchafswm o 3 blynedd. Gall myfyrwyr Meistr amser-llawn nad ydynt wedi pasio, neu wedi cyflwyno, y traethawd estynedig o fewn y cyfnod cofrestru o 12 mis gyflwyno neu ailgyflwyno unrhyw bryd hyd at ddiwedd yr ail flwyddyn. Byddai ganddynt wedyn gyfle olaf i ailsefyll yn y drydedd flwyddyn.
6. Os na fydd myfyrwyr yn ailsefyll asesiad/arholiad ar un o'r achlysuron hyn heb reswm da, byddant yn fforffedu cyfle i ailsefyll.

7. Fel rheol bydd myfyrwyr sy'n ailadrodd y flwyddyn yn cadw unrhyw gosbau am Ymddygiad Academaidd Annerbyniol sy'n gysylltiedig ag unrhyw gredydau a gwblhawyd yn flaenorol.
8. Os bydd asesiad ailsefyll yn cael ei gynnal yn y sesiwn ganlynol, gwneir trefniadau â'r Adran dan sylw, fodd bynnag, disgwylir i'r modiwlau gael eu hailsefyll yn y semester y cawsant eu dysgu ynddo ddiwethaf.
9. Mae'n rhaid bod myfyrwyr Gradd Sylfaen (FDA a FDSc) wedi pasio o leiaf 60 credyd cyn y caniateir iddynt gymryd asesiadau ym mis Awst. Os oes ganddynt lai na 60 o gredydau, bydd gofyn iddynt ail-wneud eu blwyddyn gyntaf.
10. Bydd myfyrwyr israddedig a ddechreuodd eu hastudiaethau cyn mis Medi 2018 a myfyrwyr uwchraddedig a ddechreuodd eu hastudiaethau o fis Medi 2018 yn medru gweld a ydynt yn gymwys i ailsefyll modiwl yn ystod mis Awst pan edrychant ar eu Cofnod Myfyriwr ar-lein i gael eu canlyniadau ar ôl Semester 2. Bydd gofyn iddynt gofrestru ar-lein i ailsefyll ac mae'n bwysig iddynt nodi eu bwriadau (le neu Na) ar gyfer yr holl fodiwlau y maent yn gymwys i'w hailsefyll. Os na fyddant yn cofrestru, a'u bod yn ailsefyll un neu fwy o fodiwlau, ni fydd unrhyw farciau a enillir yn cyfrif. Os yw myfyrwyr yn gymwys i ailsefyll un neu fwy o fodiwlau yn ystod y sesiwn (dim ond israddedigion yn y flwyddyn olaf fel rheol) byddant yn derbyn e-bost yn fuan ar ôl dechrau'r sesiwn yn gofyn iddynt nodi eu bwriadau drwy eu Cofnod Myfyriwr. Mae'n bwysig bod myfyrwyr yn sicrhau eu bod yn ailsefyll digon o gredydau, felly os ydynt yn ansicr ynglŷn ag unrhyw beth, dylent ofyn am gyngor yn eu hadran(nau). Os na fydd myfyrwyr yn ailsefyll, naill ai yn Awst neu yn ystod y sesiwn, ar ôl cofrestru i wneud, byddant yn fforffedu un o'u cyfleoedd i ailsefyll.
11. Noder bod ffioedd ailsefyll, ond bydd y rhain fel arfer yn cael eu hepgor ar gyfer myfyrwyr sydd ag arwyddion ailsefyll M, H, S neu T. Ceir rhagor o wybodaeth am ailsefyll a chostau ailsefyll ar: <https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/students/ug-issues/resits/>. Os nad ydych yn ailsefyll elfen yr ydych wedi cofrestru ar ei chyfer, naill ai ym mis Awst neu yn ystod y sesiwn, byddwch yn fforffedu un o'ch cyfleoedd i ailsefyll, a bydd yn rhaid i chi dalu unrhyw ffioedd ailsefyll o hyd.

1.12 YMDDYGIAD ACADEMAIDD ANNERBYNIOL

1. Bob blwyddyn mae rhai myfyrwyr yn Ymddwyn yn Annerbyniol yn Academaidd <https://www.aber.ac.uk/cy/aqro/handbook/regulations/uap/>. Diffinnir hyn gan y Brifysgol fel unrhyw weithred lle gall unigolyn sicrhau mantais na chaniateir iddo ef/iddi hi ei hun, beth bynnag fo'r bwriad a chanlyniad y weithred. Gellir cynnwys unrhyw weithredoedd sy'n gysylltiedig â'r drefn asesu yn y diffiniad hwn, boed hwy'n digwydd mewn perthynas ag arholiad ffurfiol, darn o waith cwrs, dulliau asesu eraill, neu gyflwyno amgylchiadau arbennig i fyrddau arholi. **Ymhlith yr enghreifftiau o ymddygiad academaidd annerbyniol y mae llên-ladrad, cydgynllwynio wrth gyflwyno aseiniadau, ffugio tystiolaeth neu ddata, a chyflwyno deunyddiau heb eu hawdurdodi i arholiadau ffurfiol.** Bydd myfyrwyr sy'n ymddwyn yn annerbyniol yn academaidd yn wynebu cosbau sy'n adlewyrchu graddau a natur y weithred.

Ceir rhagor o wybodaeth am ymddygiad academiaidd annerbyniol yn yr arholiadau ar: <https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/students/ug-issues/exam-assess/exam-handbook/>.

1.13 APELIADAU ACADEMAIDD

1. Mae gan y Brifysgol drefn apelio i fyfyrwyr sydd eisiau apelio yn erbyn penderfyniad bwrdd arholi. Mae'r drefn hon i'w gweld yma: <https://www.aber.ac.uk/cy/aqro/handbook/appeals/>

Noder bod yn rhaid gwneud pob apêl o fewn 10 diwrnod gwaith o ddyddiad cyhoeddi'r canlyniadau. Ni chaiff myfyrwyr apelio yn erbyn eu canlyniadau Semester 1 ar ddiwedd y sesiwn.

D.S.: Ni fydd y Brifysgol yn ystyried apêl ond pan fydd myfyriwr yn gallu rhoi rheswm da pam na roddwyd gwybod am sail yr apêl i'r Bwrdd Arholi cyn iddo ddyfarnu.

1.14 TREFNIADAU UNIGOL AR GYFER ARHOLIADAU

1. Dylai myfyrwyr sydd ag anghenion unigol ddarllen y canllawiau sy'n dwyn y teitl "Arholiadau ac Aseidiadau" sydd ar gael ar <https://www.aber.ac.uk/cy/sscs/accessibility/exams-assessments/>
2. Fel rheol fe ddisgwylir i fyfyrwyr na allent sefyll eu harholiadau oherwydd amgylchiadau arbennig megis anafiadau dros dro neu salwch byrdymor ailsefyll yr arholiadau hynny ym mis Awst. Ni chaniateir trefniadau eraill ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol, yn amodol ar dystiolaeth feddygol briodol. Os bydd cais yn cyrraedd bum wythnos dymor cyn arholiad y myfyriwr, bydd y Brifysgol yn ceisio gwneud addasiadau, yn ddibynnol ar natur y cais a'r ystyriaethau ymarferol o roi'r addasiadau hynny ar waith. Mae'n rhaid i addasiadau fod yn rhesymol ac mae'n rhaid ei bod yn ymarferol eu rhoi ar waith ymhen yr amser sydd ar gael. Fel rheol ni fydd modd i'r Brifysgol weithredu ar geisiadau sy'n dod i law lai na saith diwrnod gwaith cyn yr arholiad. I gael rhagor o wybodaeth e-bostiwrch disability@aber.ac.uk.

1.15 HEN BAPURAU

1. Mae hen bapurau arholiad ar gael ar y we: <https://www.aber.ac.uk/cy/past-papers/>. Dylai'r rhain roi rhyw syniad i fyfyrwyr am y math o gwestiynau a osodwyd yn y gorffennol. Cynghorir myfyrwyr i beidio â cheisio darogan cwestiynau. Mae angen iddynt fod yn barod am unrhyw gwestiwn, ac mae'n annhebygol y byddant yn llwyddo i ganfod yr union gwestiynau y byddant yn eu hwynebu. Bydd llawer o adrannau'n cynnal seminarau arbennig i leddfdu pryderon myfyrwyr ynghylch arholiadau ac i egluro anghenion yr adran. Dylai myfyrwyr eu mynychu.
2. Cofiwch: rydym am i fyfyrwyr berfformio hyd eithaf eu gallu; ond rydym hefyd yn disgwyl iddynt fod yn gyfrifol am eu hastudiaethau a rhoi pob gwybodaeth i'w hadrannau. Os oes gan fyfyrwyr broblemau, byddant yn gallu troi at y rhan fwyaf o'r staff. Ond er tegwch i bawb, yn eu dwylo nhw eu hunain y mae eu llwyddiant yn y pen draw, ac mae hyn yn dibynnu ar y ffordd maent yn gweithio ac yn ymateb i'r her sydd o'u blaen.

CBB
Hydref 2022